

Swyddog Prosiectau (Cyfnod mamolaeth)

**Manyleb swydd, swydd ddisgrifiad a
manyleb person**

Manyleb Swydd

Teitl y Swydd:	Swyddog Prosiectau
Ystod Cyflog:	£29,605 - £36,024 pro rata (pwyntiau sbinol 22-29)
Lleoliad:	Caerdydd, Caerfyrddin, Caernarfon, Aberystwyth <i>Mae hyblygrwydd o ran lleoliad fel rhan o'n dull gweithio hybrid.</i>
Statws Cyflogaeth:	0.5 o amser llawn (17.5 awr yr wythnos) Cytundeb rhan amser am gyfnod penodol o 12 mis (cyfnod mamolaeth) <i>Mae'r Coleg yn barod i ystyried secondiad ar gyfer y rôl yma</i>
Atebol i:	Rheolwr Academaidd: Addysg Bellach a Phrentisiaethau
Staff â chyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt:	Dim
Dyddiad cau ceisiadau:	14:00 ar 4 Hydref 2023
Dyddiad Cyfweiliad:	13 Hydref 2023

Y Coleg – amdanom ni

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg.

Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog.

Er mwyn darganfod mwy am y Coleg ewch i: www.colegcymraeg.ac.uk.

Y swydd

Mae'r Coleg yn dymuno penodi unigolyn cymwys, trefnus, a chreadigol i chwarae rhan greiddiol i ddatblygu prosiectau sy'n ymwneud â chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau. Bydd y prosiectau yn gysylltiedig â'r gwahanol elfennau sef dysgwyr, staffio, darpariaeth, adnoddau, cymwysterau a chyflogwyr.

Byddwch yn chwarae rhan allweddol trwy arwain prosiect Cymraeg Gwaith ar gyfer y sector addysg bellach. Pwrpas prosiect Cymraeg Gwaith yw darparu cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer staff yn y sector i ddatblygu a gwella eu sgiliau Cymraeg er mwyn gallu darparu'n gynyddol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd deiliad y swydd yn annog ac yn hwyluso cydweithio gydag ac ar draws y sector.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus ddealltwriaeth o'r sector addysg bellach a phrentisiaethau a phrofiad o reoli prosiectau amrywiol.

Gwneud Cais

Gwahoddir y sawl sydd am gael gwybodaeth bellach am y swydd i gysylltu â Lisa O'Connor, Rheolwr Academaidd: Addysg Bellach a Phrentisiaethau, drwy e-bost at l.oconnor@colegcymraeg.ac.uk i drefnu trafodaeth anffurfiol.

Dylid cyflwyno ceisiadau trwy gwblhau'r ffurflen gais a'r ffurflen fonitro cyfle cyfartal sydd ar wefan y Coleg [Swyddi | Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) Ni fydd ceisiadau trwy CV yn dderbyniol. Dylid cyfeirio pob cais i Sara Jones, Swyddog Adnoddau Dynol drwy e-bost at adnoddaudynol@colegcymraeg.ac.uk a rhaid i bob cais gyrraedd **erbyn 14:00 ar 4 Hydref 2023**.

Cyfweliadau

Bwriedir cynnal cyfweliadau ar **13 Hydref 2023 yng Nghaerfyrddin**. Bydd yr union fanylion yn cael eu cadarnhau gyda'r unigolion sy'n cyrraedd y rhestr fer, pan fyddwn ni'n eu gwahodd i gyfweliad.

Nid yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr rhan neu lawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd o iaith (heblaw lle mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer swydd) neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif.

Swydd ddisgrifiad

Swyddog Addysg Bellach a Phrentisiaethau

Cytundeb: Rhan amser (0.5 o amser llawn, sef 17.5 awr), cyfnod penodol o o 12 mis (cyfnod mamolaeth)

Mae'r Coleg yn barod i ystyried secondiad ar gyfer y rôl yma

Cyflog: £29,605 - £36,024 pro rata (pwyntiau sbinol 22-29)

Lleoliad: Caerdydd, Caerfyrddin, Caernarfon, Aberystwyth

Atebol i: Rheolwr Academaidd: Addysg Bellach a Phrentisiaethau

Nod Cyffredinol y Swydd

- Cefnogi, cynllunio a monitro prosiect Cymraeg Gwaith ar gyfer y sector Addysg Bellach, darparu pwynt cyswllt a chefnogaeth i golegau a chysylltu â sefydliadau allanol i sicrhau canlyniadau llwyddiannus i'r prosiect o fewn cyllidebau cymeradwy ac o fewn terfynau amser.
- Dylanwadu ar a chefnogi cynlluniau strategol y colegau a darparwyr prentisiaethau gan gynnwys darparu cyngor ar faterion yn ymwneud â'r prosiect.
- Cyfrannu tuag at y Cynllun Addysgu Bellach a Phrentisiaethau ac egwyddorion ac amcanion cyffredinol y Coleg

Prif Ddyletswyddau

1. Cefnogi a chynnal datblygiadau ar brosiect penodol a chynlluniau ym maes Addysg Bellach

- Gweithio gyda cholegau ar brosiect penodol a gyllidir gan y Coleg
- Cyfrannu at gydlynu proses weinyddol prosiect Cymraeg Gwaith
- Cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg er mwyn rhannu gwybodaeth am brosiect Cymraeg Gwaith rhwng y partneriaid allweddol.
- Cydweithio gyda staff eraill yn y Coleg sy'n gweithredu prosiect Cymraeg Gwaith
- Dadansoddi data ar gyfer colegau
- Darparu cefnogaeth weithredol i golegau wrth wireddu'r strategaeth *Tuag at Cymraeg 2050*
- Diweddarau gwybodaeth am staff sy'n mynychu Cymraeg Gwaith ar systemau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg
- Darparu cymorth gweinyddol, cefnogi a monitro prosiect penodol.

2. Cyfrannu'n strategol a gweithredol at drafodaethau gyda cholegau a phartneriaid am brosiectau sy'n ymwneud â dysgwyr, staffio, darpariaeth, adnoddau, cymwysterau a chyflogwyr

- Cydlynu ac arwain cyfarfodydd gyda cholegau, a phartneriaid
- Cydweithio gyda cholegau i sefydlu neu ddarparu mewnbwn am ddatblygiad a llwyddiant y prosiect gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol

3. Dylanwadu ar a chefnogi cynlluniau strategol Cymraeg Gwaith y colegau gan gynnwys darparu cyngor ar faterion yn ymwneud â'r prosiect

- Rhoi cyflwyniadau ar y prosiect mewn cyfarfodydd a chynadleddau, er mwyn hyrwyddo'r prosiect a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r colegau wrth ddarparu Cymraeg Gwaith.
- Cynnal sesiynau / gweithdai arfer dda wrth i gynlluniau ddatblygu i arddangos enghreifftiau llwyddiannus o ddatblygiadau Cymraeg / dwyieithog

- Cynnal cyfarfodydd cynllunio a chefnogi gyda'r colegau er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y prosiectau.

4. Cyfrannu tuag at y Cynllun Addysgu Bellach a Phrentisiaethau ac egwyddorion ac amcanion cyffredinol y Coleg

- Cyfarfod fel bo'r angen gyda cholegau a phartneriaid eraill sy'n rhan greiddiol o'r strategaeth Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg
- Cydweithio gyda swyddogion o gyrff allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Colegau Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg ac eraill er mwyn datblygu partneriaethau gweithredol pwrpasol.

Manyleb Person

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar y medrau, y sgiliau, y galluoedd a'r wybodaeth a ganlyn er mwyn cyflawni'r swydd yn effeithiol.

Meini Prawf

Addysg a hyfforddiant	
(hanfodol)	(dymunol)
	<ul style="list-style-type: none">Gradd anrhydedd perthnasol Cymhwyster galwedigaethol / proffesiynol arall e.e. rheoli prosiect, TGCh

Sgiliau gwaith	
(hanfodol)	(dymunol)
<ul style="list-style-type: none">Medrau trefnu, cydlynu a rheoli prosiect da, gan gynnwys y gallu i weithio i derfynau amser tynnSgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu da yn cynnwys Microsoft Outlook, Word, Excel.Y gallu i gyflwyno mewn cynadleddau a sesiynau neu gynadleddau datblygu staff yn Gymraeg a Saesneg.Gallu paratoi a chyflwyno adroddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg. <p><i>Mae croeso i chi gyfeirio at unrhyw gymhwyster sy'n profi eich gallu ieithyddol yn y Gymraeg e.e. y Dystysgrif Sgiliau Iaith.</i></p>	

Nodweddion a sgiliau

(hanfodol)

(dymunol)

- Sgiliau rhyngpersonol da
- Y gallu i gydweithio'n effeithiol â phobl ar bob lefel yn enwedig darlithwyr, ymarferwyr ac ymgysylltu'n effeithiol gyda rhanddeiliaid.
- Y gallu i weithredu yn effeithiol fel aelod o dîm
- Y gallu i weithio yn annibynnol yn ôl yr angen
- Brwdfrydedd ac ymagwedd greadigol a rhagweithiol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

(hanfodol)

(dymunol)

- Gwybodaeth am a dealltwriaeth dda o waith amrywiol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Gwybodaeth am brosiect Cymraeg Gwaith
- Gwybodaeth am y sector addysg bellach a phrentisiaethau

Profiad

(hanfodol)

(dymunol)

- Profiad o waith cydlynu a threfnu
- Profiad o reoli amser, cynllunio a blaenoriaethu ar gyfer, a chwrdd ag, amserlenni tynn
- Profiad o weithio yn y sector addysg bellach neu brentisiaethau
- Profiad o waith ymchwil a dadansoddi
- Profiad marchnata a chyfathrebu

Gofynion eraill

(hanfodol)

(dymunol)

- Y gallu i deithio

Amodau'r Penodiad

Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

1. Mae'r penodiad yn ddarostyngedig i drefniadau Adnoddau Dynol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
2. Penodir ar gyflog o fewn yr ystod £29,605 - £36,024 y flwyddyn pro rata (Pwyntiau sbinol 22-29). Pennir yr union gyflog yn dilyn y cyfweiliad gan gymryd i ystyriaeth gymwysterau a phrofiad blaenorol.
3. Bydd eich cytundeb cyflogaeth yn gytundeb rhan amser 0.5 FTE (17.5 awr yr wythnos) am gyfnod penodol o 12 mis (cyfnod mamolaeth).
4. Bydd eich cytundeb cyflogaeth yn nodi 17.5 awr wedi eu contractio bob wythnos.
5. Pennir yr oriau gwaith arferol drwy drefniant â'r rheolwr llinell. Bydd disgwyl, ar adegau, i'r sawl a benodir i weithio y tu allan i'r oriau arferol, lle y bo ymrwymïadau gwaith yn galw am hynny.
6. Bydd hawl i 28 diwrnod o wyliau'r flwyddyn (pro rata) yn ogystal ag 8 diwrnod o wyliau statudol (pro rata) a 4 diwrnod o wyliau neilltuol (pro rata). Mae'r flwyddyn wyliau o 1 Medi i 31 Awst yn gynwysedig. Rhaid cymryd gwyliau blynyddol ar adegau y cytunir arnynt gan y rheolwr llinell.
7. Bydd deiliad y swydd hon yn gymwys ar gyfer Polisi Oriau Hyblyg y Coleg.
8. Bydd deiliad y swydd yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS).
9. Ni chaiff y sawl a benodir ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth neu benodiad arall sy'n galw am gryn dipyn o'i (h)amser neu ei (h)egni heb ganiatâd Prif Weithredwr y Coleg.
10. Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i brawf o'r cymwysterau addysgol a restrir ar y ffurflen gais ynghyd a geir da derbyniol gan y canolwyr a enwir ar y ffurflen gais.
11. Bydd cyfnod prawf o dri mis ac yn ystod y cyfnod hwn bydd cyfnod rhybudd o 2 wythnos yn weithredol.
12. Yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus, gellir terfynu'r cytundeb drwy i'r naill ochr neu'r llall roi rhybudd ysgrifenedig o nid llai na dau fis.